YMCA

BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL
CAERDYDD A'R FRO

CARDIFF & VALE
REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

# CYSTADLEUAETH

# GOFALWYR IFANC



**Cymerwch ran:**

https://cavrpb.org/young-carers-competition/

# TROSOLWG

Mae RPB Caerdydd a'r Fro yn cynnal cystadleuaeth i ddarganfod sut fyddech chi'n hyrwyddo Siarter Gofalwyr Ifanc Caerdydd a'r Fro i Ofalwyr Ifanc ar draws ein rhanbarth.

Rydym yn chwilio am bobl i gyflwyno ffilm fer, nodyn llais neu gartŵn y gellid ei ddefnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r gystadleuaeth hon yn agored i ysgolion, clybiau ieuenctid a grwpiau a sefydliadau eraill sy'n cefnogi pobl yng nghyfnod allweddol 3 (Blynyddoedd 7-9), yn yr ysgol a'r tu allan iddi.

Ar y dudalen hon mae ystod o adnoddau hysbysebu enghreifftiol rydyn ni wedi'u creu a allai eich ysbrydoli, ond mae croeso i chi fod mor greadigol ag y dymunwch. Y peth pwysig yw dweud wrth ofalwyr ifanc am y Siarter a'u hannog nhw i gael rhagor o wybodaeth.

Rydym hefyd yn gofyn i chi feddwl am ble yr hoffech i ni hyrwyddo'r Siarter. Rhowch wybod i ni yn eich ffurflen gais yn https://cavrpb.org/young-carers-competition/.

Bydd y gystadleuaeth yn cael ei beirniadu gan banel, a fydd yn cynnwys gofalwyr ifanc a bydd y ceisiadau buddugol yn cael eu defnyddio i hyrwyddo'r Siarter.

Bydd yr ymgeisydd buddugol yn derbyn taleb y gellir ei gwario mewn ystod o leoedd gan gynnwys Argos, WH Smith a Waterstones i brynu adnoddau y gellir eu defnyddio gan bawb yn y dosbarth/grŵp.

**Gwobr gyntaf:**
Taleb £100

**Yr ail wobr:**
Taleb £50

**Y drydedd wobr:**
Taleb £25



# CYNLLUN GWERS: GOFALWYR IFANC

## Trosolwg o'r Wers

**Amser a neilltuwyd:**
1 awr

**Gwybodaeth am Ofalwyr Ifanc**
- Diffiniad
- Ystyried effaith bod yn ofalwr ifanc
- Ble i fynd am gefnogaeth

**Cystadleuaeth:**
- Creu hysbyseb (ffilm fer, animeiddiad neu fwrdd stori) ar gyfer Siarter Gofalwyr Ifanc Caerdydd a'r Fro a fydd yn apelio at ofalwyr ifanc
- Ystyried ble y dylid gosod yr hysbyseb

## Cefndir

Cynhelir yr Wythnos Gofalwyr rhwng 5-11 Mehefin 2023 a'i nod yw codi ymwybyddiaeth o'r rhai sy'n darparu gofal anffurfiol/di-dâl i gymydog neu berthynas.

Dylai myfyrwyr allu diffinio beth yw gofalwr di-dâl a gwybod beth i'w wneud os ydyn nhw'n meddwl eu bod nhw, neu rywun maen nhw'n ei adnabod, yn ofalwr di-dâl.

Fel gweithgaredd i gefnogi dealltwriaeth, a defnyddio sgiliau creadigol (e.e. ysgrifennu creadigol, cyflwyno, perfformio, technoleg) mae disgyblion yn cael y dasg o greu hysbyseb fer (uchafswm o 30 eiliad) ar gyfer naill ai teledu, radio neu gyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r Siarter Gofalwyr Ifanc, ystyried ble y dylid ei defnyddio a'i chyflwyno fel rhan o'n cystadleuaeth

Cliciwch yma i gael gwybod am ein Cystadleuaeth Hysbyseb i Ofalwyr Ifanc.



YMCA

BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL CAERDYDD A'R FRO
CARDIFF & VALE REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

Cynllun Gwers

Yn ogystal ag ennill gwobr, bydd y ceisiadau buddugol yn cael eu defnyddio i hyrwyddo ein Siarter Gofalwyr Ifanc.

**5 munud – Beth yw gofalwr di-dâl?**

Gofynnwch i'r myfyrwyr a ydyn nhw'n gwybod beth yw gofalwr di-dâl, rhowch ddiffiniad iddynt isod, a thrafodwch eu barn ar yr hyn y gallai hynny ei olygu i'r person ifanc sy'n gofalu.

"Gofalwr ifanc yw rhywun 25 oed ac iau sy'n gofalu am ffrind neu aelod o'r teulu na all ymdopi heb gefnogaeth o ganlyniad i salwch, anabledd, problem iechyd meddwl neu ddibyniaeth."

(https://carers.org/about-caring/mwy-am-ofalwyr-ifanc)

**10 munud – Beth mae'r rôl ofalu yn ei olygu i'n hesiamplau?**

Archwiliwch rôl ac effaith gofalu ymhellach trwy 2 astudiaeth achos benodol a ddarparwyd gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru (t.9-10)

(https://carers.org/downloads/resources-pdfs/wales-school-resources/adnoddau-gwersi-ar-gyfer-ysgolion-uwchradd.pdf)

**Cwestiynau enghreifftiol i'w harchwilio:**

- Sut gallai bod yn ofalwr ifanc effeithio ar addysg rhywun?
- Sut gallai hyn effeithio ar gyfeillgarwch neu'r pethau y gallant eu gwneud y tu allan i'r ysgol?
- Beth yw'r manteision a'r sgiliau sydd gan ofalwr ifanc dros rywun nad yw'n ofalwr?

**10 munud – Sut mae gofalwyr ifanc yn cael eu cefnogi?**

Dangoswch y Siarter Gofalwyr Ifanc i'r myfyrwyr, trafodwch:

- A yw ei gynllun yn llwyddiannus i helpu myfyrwyr i ddeall a ydynt yn ofalwr ifanc?
- A ydych yn deall ymrwymiadau'r sefydliadau sydd i fod i gefnogi gofalwyr ifanc?
- Ydych chi'n gwybod i ble y dylech fynd am gymorth neu gefnogaeth?
- Beth ydych chi'n ei hoffi am y poster? Beth y gellid ei wella?

BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL
CAERDYDD A'R FRO
CARDIFF & VALE
REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

YMCA

**25 munud – Eglurwch y brif dasg**

**Briff:** Rydyn ni eisiau i gymaint o bobl â phosib wybod am y gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr ifanc ac felly rydyn ni angen i chi greu hysbyseb teledu, radio neu ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol. Gallai hyn fod ar ffurf cân, dawns sy’n trendio, rap, cerdd, stori, poster y gellir ei animeiddio, actio/drama – byddwch yn greadigol ond gwnewch yn siŵr ei bod yn hoelio sylw ac yn dweud y stori. Dylid osgoi portreadau negyddol o sut sefyllfa y gallai gofalwr ifanc ei hwynebu, gan gynnwys trais a bwlio.

**Pethau defnyddiol i’w trafod cyn i fyfyrwyr ddechrau:**
- Beth sy’n gwneud hysbyseb dda?
- Pa wybodaeth sy’n RHAID i’r hysbyseb hon ei chynnwys?
- Beth yw’r wobr bosibl ar gyfer yr hysbyseb orau?
- Ble y dylid ei harddangos?

**25 munud – ysgrifennu, ffilmio, recordio (os yw’n nodyn llais ar gyfer hysbyseb radio) mewn grwpiau bach/yn unigol**

**5 munud – Crynhoi**

**Cadarnhau:**
- Beth yw gofalwr di-dâl
- Ble gall myfyrwyr fynd am gefnogaeth
- Yr hyn y maent wedi’i gynhyrchu (cytuno ar y dyddiad cau os nad yw’n gyflawn er mwyn i oedolyn allu cyflwyno cynnig o bob grŵp neu’r gorau o’r dosbarth)

**Adnoddau:**
Siarter Gofalwyr Ifanc: https://cavrpb.org/gofalwyr-ifanc/?lang=cy

Mae gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru lu o adnoddau ar gyfer athrawon i helpu myfyrwyr i ddeall a diffinio beth yw gofalwr di-dâl, gan gynnwys cyswllt allweddol â Chwricwlwm i Gymru 2022.

Gweler yma: https://carers.org/downloads/resources-pdfs/wales-school-resources/adnoddau-gwersi-ar-gyfer-ysgolion-uwchradd.pdf

BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL CAERDYDD A’R FRO
CARDIFF & VALE REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

YMCA

# TELERAU AC AMODAU

Mae'r gystadleuaeth untro hon yn agored i ysgolion, clybiau ieuenctid a grwpiau a sefydliadau eraill sy'n cefnogi pobl yng nghyfnod allweddol 3 (Blynyddoedd 7-9), yng Nghaerdydd a/neu Fro Morgannwg, yn yr ysgol a'r tu allan iddi.

Mae tair gwobr a phob un yn daleb EdenRed. Ewch i www.edenred.co.uk i ddarganfod mwy am dalebau EdenRed.

Gwobr gyntaf: Taleb £100
Yr ail wobr: Taleb £50
Y drydedd wobr: Taleb £25

Dim ond drwy eu cyflwyno ar y ffurflen ganlynol y derbynnir ceisiadau: https://cavrpb.org/young-carers-competition/ neu gallwch e-bostio hsc.integration@wales.nhs.uk os ydych chi'n cael problemau i gyflwyno eich cais.

Rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn hanner nos ar 30 Mehefin 2023.

Hysbysir yr enillwyr erbyn 21 Gorffennaf 2023.

Ni roddir unrhyw wobr arall nac arian parod yn lle'r wobr a nodir.

Mae penderfyniad yr RPB yn derfynol ac ni fyddwn yn ateb unrhyw ohebiaeth.

Mae'r RPB yn cadw'r hawl i aildynnu enw'r enillydd os nad yw'r wobr wedi'i hawlio ar ôl 60 diwrnod neu os nad yw'r enillydd wedi ymateb i'n hymdrechion i gysylltu.

Ystyrir bod yr holl gyfranogwyr wedi derbyn ac yn cytuno â'r Telerau ac Amodau hyn.

Os ydych yn dymuno cymryd rhan yn y gystadleuaeth, ond nad ydych am gael eich beirniadu ar gyfer gwobr, anfonwch e-bost at hsc.integration@wales.nhs.uk i dynnu'n ôl.

YMCA

CARDIFF & VALE
REGIONAL
PARTNERSHIP
BOARD